

Llun: Aled Llywelyn

# Cerddor y ddau fyd

**Bydd nifer o weithiau newydd sbon yn cael eu perfformio yng Ngŵyl Gerdd Bangor eleni, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Yn eu plith bydd gwaith wedi'i gomisiynu'n arbennig gan y cyfansoddwr ifanc GARETH OLUBUMNI HUGHES yn cael ei berfformio am y tro cyntaf.**

**Menna Baines**

Mae'n bosib y bydd enw Gareth Olubumni Hughes, ar raglen Gŵyl Gerdd Bangor 2017, yn canu cloch i nifer o Eisteddfodwyr. Dyma'r cyfansoddwr a enillodd Dlws y Cerddor ym Mhrifwyl Sir Fynwy y llynedd ac a gipiodd yr un wobr yn Eisteddfod Bro Morgannwg bedair blynedd ynghynt. Roedd y beirniaid yn y ddwy gystadleuaeth yn hael eu canmoliaeth i'w waith. Yn Eisteddfod y Fro, disgrifiodd Richard Elfyn Jones a Deian Rowlands ei sonata i ffliwt a thelyn – yn seiliedig ar delyneg John Morris-Jones 'Cwyn y Gwynt'– fel gwaith un a oedd 'â'i fys ar byls y syniadaeth ddiweddaraf am gynghanedd a rhythm'. Yn y Fenni, roedd Jeffrey Howard ac Osian Llŷr Rowlands hwythau wedi'u swyno gan ei osodiad o gerddi gan Llŷr Gwyn Lewis ar gyfer bariton-bas, gan ei alw'n 'gyfansoddiad cyffrous' gan gystadleuydd a oedd 'yn deall yn iawn sut i gyfansoddi ar gyfer y llais' yn ogystal â bod 'yn feistr ar y piano'. Prawf pellach o'i ddawn ar yr offeryn hwnnw yw'r ffaith iddo ddod yn agos at y brig ddwywaith ar yr unawd piano, ac ar wahân i'r Tlws mae wedi ennill gwobrau eraill yn y Genedlaethol am gyfansoddi.

Mewn sgwrs â'r cerddor 37 oed o Gaerdydd, daw'n amlwg ei fod yn falch iawn o'r cyflawniadau hyn. Ond, er gwaethaf canmoliaeth y beirniaid i gyfoesedd ei waith, mae'n dweud bod y deunydd a gyfansoddodd ar gyfer cystadlaethau Tlws y Cerddor yn eithaf traddodiadol mewn cymhariaeth â'r rhan fwyaf o'r gwaith arall sydd wedi dod o'i law. Yn wir, mae'n mynd ymhellach gan ddweud ei fod wedi ffrwyno ei awydd i greu gwaith arbrofol wrth gystadlu yn y Genedlaethol a hynny er mwyn cynyddu ei siawns o lwyddo.

'Er mwyn ennill yn yr Eisteddfod, dwi wedi gorfod newid fy arddull i fod yn llai modern a gwreiddiol, ac yn fwy confensiynol,' meddai. 'Dwi'n meddwl os buaswn i wedi cyfansoddi rhywbeth mor gyfoes ag fydden i'n hoffi, fydde fe wedi bod yn rhy fodern i blesio'r beirniaid.'

Beth tybed, gofynnaf, y mae hynny'n ei ddweud am yr Eisteddfod? A yw'r ffaith fod un o brif enillwyr cerddorol yr Ŵyl yn y blynyddoedd diwethaf yn cyfaddef ei fod wedi cyfaddawdu ar ei arddull er mwyn cipio'r llawryfon yn feirniadaeth ar yr Ŵyl am beidio gwneud digon i hybu cyfansoddi mewn idiom gyfoes?

'Efallai,' atebai Gareth. 'Mae'n wir fod ambell

gyfansoddwr mwy modern na'i gilydd yn dod i'r brig ond yn amlach na pheidio mae'r beirniaid yn dewis gwaith mwy confensiynol a thraddodiadol. Dwi'n cael yr argraff fod yna fwy o arbrofi a gwthio'r ffiniau ym myd y prif gystadlaethau llên a barddoniaeth. Mi allai'r Eisteddfod wneud mwy i ddatblygu cerddoriaeth gyfoes mewn arddull fodern a gwreiddiol – efallai drwy gael cystadleuaeth fyddai'n gofyn yn benodol am waith o'r fath.'

Cynnyrch Ysgol Gyfun Glantaf, lle'r oedd Alun Guy a Delyth Medi yn dysgu cerdd iddo, yw Gareth Olubumni Hughes. Cymraes o Gaerdydd a ddysgodd Gymraeg wrth i Gareth dyfu i fyny yw ei fam, ac mae hi bellach yn diwtor ail iaith ei hun. Deuai tad Gareth o Nigeria, sy'n egluro enw canol y mab, er i'w rieni wahanu pan oedd ef yn ifanc.

'Doedd y teulu ddim yn arbennig o gerddorol,' meddai Gareth. 'Ond fe wnes i ddechrau cael gwersi piano pan o'n i'n naw oed. Ro'n i'n dysgu'n glou, roedd cof eitha da 'da fi, ac fe wnes i Radd 8 tra o'n i'n yn ysgol.'

Wedi ennill gradd ddosbarth cyntaf mewn cyfansoddi cyfoes yn King's College, Llundain, aeth i Brifysgol Birmingham i astudio ar gyfer gradd meistr mewn cerddoriaeth electroacwstig. Bu'n gweithio wedyn ym myd cyfrifiaduron yn Llundain am rai blynyddoedd, ac er na chyfansoddodd lawer yn y cyfnod hwn treuliodd lawer o amser yn arbrofi gydag effeithiau sain a churiadau mewn stiwdio fach yn ei stafell wely. Cyn hir dychwelodd i fyd addysg a llynedd derbyniodd ddoethuriaeth mewn cyfansoddi cyfoes o Brifysgol Caerdydd, am gasgliad o gyfansoddiadau acwstig ac electroacwstig ynghyd â sylwebaeth arnynt a gwybodaeth am y rhaglenni cyfrifiadurol a ddefnyddiwyd i'w creu.

Mae'r gwaith hwnnw, ynghyd â chyfansoddiadau diweddar eraill, yn dra gwahanol i'r deunydd a enillodd y ddau Dlws Eisteddfodol iddo. Gall pobl fydd yn mynychu'r perfformiad o'i waith comisiwn ar gyfer Gŵyl Gerdd Bangor yn Pontio fis nesaf ddisgwyl clywed llawer o synau electronig yn cael eu creu ar y llwyfan, chwarae i mewn i feicroffonau, sŵn syntheseinydd ac effeithiau arbennig fel datsain (*reverb*). Mae gwaith Gareth, a fydd yn cael ei berfformio gan y ffliwtydd Carla Rees a'r soprano Juliet Fraser, yn osodiad o gerdd Saesneg gan gyfaill a gyfarfu yn y coleg yng Nghaerdydd, Stephen Boon.

'Amber on Black iii' yw enw'r gerdd, y drydedd mewn cylch o dair cerdd gan Stephen Boon sydd wedi'u gosod gan Gareth. Mae'n disgrifio myfyrdodau teithiwr mewn awyren wrth weld goleuadau llachar y trefi islaw ynghanol

**"**

**Mi allai'r Eisteddfod wneud mwy i ddatblygu cerddoriaeth gyfoes mewn arddull fodern a gwreiddiol.**

düwch y nos fel llifeiriant o hylif tawdd tebyg i lafa. 'Dwi wedi gweithio efo'r ffliwtydd Carla Rees yn y gorffennnol ac mae hi'n eitha *avant-garde*, yn defnyddio technegau arbennig fel *pitch-bends* (symud o un traw i draw arall) a thechneg *multiphonic* (chwarae mwy nag un nodyn ar y pryd, a hefyd siarad i mewn i'r ffliwt a chael synau ffonetig allan ohoni). Dwi wedi gweithio efo'r gantores Juliet Fraser o'r blaen hefyd ac mae hithau wedi arfer efo'r math o dechnegau dwi'n eu defnyddio. Dwi wedi gosod rhai o eiriau'r gerdd yn draddodiadol ond mae yna osod ffonetig hefyd, gyda synau yn lle geiriau go iawn.'

Yn ôl cyfarwyddwr artistig Gŵyl Gerdd Bangor, Guto Puw, roedd comisiynu gwaith gan Gareth yn gam naturiol i ŵyl y mae hyrwyddo cyfansoddwyr ifanc ar ddechrau eu gyrfa yn un o'i hamcanion.

'Mae cyfansoddiadau Gareth yn gywrain a manwl iawn, ac o fewn *Amber on Black iii* yn rhoi sylw neilltuol i ansawdd seinyddol y llais a'r ffliwt sy'n gwthio potensial fynegiannol gerddorol y chwaraewyr i'r eithaf. O ychwanegu blanced o synau electronig amrywiol mae hyn yn creu tirwedd seinyddol ddiwydiannol gyffrous sy'n clymu'r gerddoriaeth yn naturiol wrth thema'r Ŵyl eleni, sef Pensaernïaeth a Thirwedd Trefol.'

Ond sut mae pobl yn gyffredinol yn ymateb i'r fath waith arbrofol? Yn ôl Gareth mae aelodau o'r genhedlaeth iau yn aml yn cynhesu ato'n naturiol gan ei fod yn cynnwys elfennau tebyg i gerddoriaeth bop. Cred hefyd fod potensial trwy arddull fel hyn i ddenu gwrandawyr na fyddent fel arfer yn cael eu denu gan gerddoriaeth glasurol.

Serch ei frwdfrydedd, a'i hyder amlwg fel cyfansoddwr, Gareth yw'r cyntaf i gyfaddef nad yw gwneud bywoliaeth o gyfansoddi yn hawdd. Prin, meddai, yw'r rhai sy'n llwyddo i fyw ar gyfansoddi'n unig. Ond mae'n llawn cynlluniau, ac un ohonynt yw ysgrifennu opera siambr gyfoes yn seiliedig ar fyd chwedloniaeth Geltaidd – y Mabinogi, y chwedlau Arthuraidd neu gerddi Taliesin o bosib.

Go brin mai dyma'r cyfnod hawsaf i ddechrau gyrfa o unrhyw fath ym myd y celfyddydau, ond mae'n ymddangos yn weddol sicr y byddwn yn clywed mwy yn y dyfodol am y cerddor blaengar o Gaerdydd.

---

Mae Gŵyl Gerdd Bangor yn cael ei chynnal yn Pontio ar 18 Chwefror. Perfformir *Amber on Black iii* gan Gareth Olubumni Hughes yn y Stiwdio am 1pm. Am fanylion ewch i www.bangormusicfestival.org.uk